# Y Sgandal Cig Ceffyl: Y cynnydd sydd wedi'i wneud

## Ebrill 2015

## Rhagarweiniad

Mae'r nodyn ymchwil hwn yn rhoi amlinelliad o'r mesurau sydd wedi'u cymryd gan y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd ers y sgandal cig ceffyl yn 2013 i atal rhagor o achosion o halogi cig.

### Cefndir

Ym mis Ionawr 2013, cyhoeddodd Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon ganlyniadau astudiaeth a oedd yn profi cynhyrchion cig eidion am bresenoldeb cig heb ei ddatgelu. Cafwyd samplau o 27 o gynhyrchion byrgyrs cig eidion gwahanol. Roedd y profion yn dangos bod 37 y cant o'r samplau hyn yn cynnwys DNA ceffyl ac roedd 85 y cant yn cynnwys DNA mochyn.[1]

Yn dilyn y cyhoeddiad hwn, cynhaliodd Asiantaeth Safonau Bwyd y DU gyfres o brofion ar gynhyrchion a oedd yn cael eu gwerthu yn y DU ac oedd yn cynnwys cig eidion wedi'i brosesu. Canfuwyd fod nifer o gynhyrchion gan gyflenwyr gwahanol yn cynnwys cig ceffyl. Ym mis Chwefror 2013, cyhoeddodd y cwmni bwyd Findus fod rhai samplau o'i lasagne cig eidion a brofwyd yn cynnwys rhwng 80 a 100 y cant o gig ceffyl.[2] Gwnaeth archfarchnad Aldi hefyd dynnu dau gynnyrch cig eidion yn ei ôl ar ôl i brofion ddangos bod rhwng 30 a 100 y cant o'r cynnwys yn gig ceffyl.[3]

Ers hynny, mae nifer o gamau gweithredu wedi'u cymryd gan awdurdodau cenedlaethol ac awdurdodau Ewropeaidd i fynd i'r afael â phryderon defnyddwyr ynghylch diogelwch a dilysrwydd cynhyrchion cig wedi'i brosesu.

## Cyrff rheoleiddio

Mae'r rhan fwyaf o safonau a deddfwriaeth ynghylch diogelwch cig yn **Ewropeaidd**. Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am, ac yn arwain y drafodaeth ar lefel Ewropeaidd ynghylch safonau a diogelwch bwyd ar ran y gweinyddiaethau datganoledig.

Mae'r **Asiantaeth Safonau Bwyd** yn adran llywodraeth annibynnol ledled y DU sy'n gweithredu ym mhob rhan o'r DU. Mae'n gyfrifol am weithredu rheolaethau swyddogol a deddfwriaeth diogelwch bwyd. Mae'n atebol i Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

## Camau wedi'u cymryd gan y Comisiwn Ewropeaidd

### Rhwydwaith Twyll Bwyd Ewrop

Sefydlwyd Rhwydwaith Twyll Bwyd Ewrop ym mis Gorffennaf 2013. Ei nod yw caniatáu i'r Comisiwn Ewropeaidd a chyrff cynrychioladol o 28 o aelod-wladwriaethau, yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Norwy a'r Swistir, rannu gwybodaeth er mwyn ymdrin ag achosion o dwyll bwyd trawsffiniol yn fwy effeithlon. Mae'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac yn caniatáu cydlynu camau gweithredu pan fo trosedd mewn perthynas â chyfraith bwyd yn ymwneud â mwy nag un aelod o Rwydwaith Twyll Bwyd Ewrop.[4]

[1] Llywodraeth y DU, **Processed beef products and horse meat** (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].
[2] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Timeline of horse meat issue (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].
[3] *ibid*
[4] Y Comisiwn Ewropeaidd, **Horse meat: one year on actions announced and delivered** (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].

## Profi DNA / cig ceffyl

Ar ôl canfod cynhyrchion cig wedi'i halogi, cynhaliodd y Comisiwn Ewropeaidd gyfres o brofion ledled yr UE i ganfod maint y broblem.

Mae profi cynhyrchion cig am bresenoldeb cig heb ei ddatgelu wedi dangos gostyngiad yn nifer yr achosion halogi ers 2013. O'r 7,259 o samplau a brofwyd yn 2013, roedd 193 yn cynnwys olion DNA / cig ceffyl uwchlaw'r terfyn o 1 y cant. Mae hyn gyfwerth â **4.6 y cant** o'r samplau.[5]

O'r 2,662 o samplau a brofwyd yn 2014, o gynhyrchion cig mewn 28 o wledydd Ewrop, roedd 16 yn cynnwys DNA / cig ceffyl. Mae hyn gyfwerth â **0.61 y cant** o'r samplau.[6]

## Pasbortau ceffylau

Mae deddfwriaeth newydd yr UE[7] hefyd wedi cryfhau'r gyfraith gyfredol ynghylch pasbortau ceffylau. Mae wedi bod yn ofyniad cyfreithiol i bob ceffyl gael dogfen hunaniaeth ar ffurff pasbort ers 2004. Mae'r pasbort hwn yn para am oes y ceffyl. At hynny, rhaid i bob ceffyl sydd wedi'i eni ar ôl 2009 hefyd gael microsglodyn.[8]

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, nid yw'n ofynnol i aelod-wladwriaethau storio'r data hunaniaeth hyn ar gronfa ddata genedlaethol. Yn y DU, caiff data eu storio ar hyn o bryd gan sawl cronfa ddata wahanol a reolir yn breifat ac sy'n perthyn i gyrff cymeradwy cyflwyno pasbortau.

O fis Mehefin 2016, o dan ddeddfwriaeth newydd yr UE, rhaid i aelod-wladwriaethau gynnal cronfa ddata hunaniaeth ceffylau canolog, sy'n cysylltu ag aelod-wladwriaethau eraill.[9] Rhaid cadw'r pasbort gyda'r ceffyl pan gaiff ei symud, gan gynnwys o fewn y DU. Rhaid i'r pasbort hefyd nodi a ellir lladd y ceffyl ar gyfer cig.

Nod y ddeddfwriaeth newydd yw adnabod yn haws y ceffylau na ellir eu lladd. Mae hyn yn cynnwys ceffylau sydd wedi cael triniaeth feddygol gyda phenylbutazone neu 'bute'.

## Labelu tarddiad ar gyfer cig ffres

Mae **labelu gwlad tarddiad** ar ddeunydd pacio cig yn rhoi gwybodaeth am y wlad lle cafodd yr anifail ei eni, ei fagu a'i ladd.

Mae gan yr UE gynllun labelu cig eidion gorfodol. Mae labelu tarddiad wedi bod yn ofyniad ar gyfer cig eidion a chig llo ffres neu wedi'i rewi ers 2000, pan gafodd ei gyflwyno fel mesur i reoli lledaeniad BSE.[10] Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn cwmpasu briwgig cig eidion neu friwgig cig llo (sy'n cynnwys llai nag 1 y cant o halen), a byrgyrs cig eidion heb eu coginio (lle mai cig eidion yw'r unig gynhwysyn).[11]

O fis Ebrill 2015, bydd labelu tarddiad yn cael ei ymestyn i gynnyrch moch, dofednod, defaid a geifr heb ei brosesu, gan gynnwys cig ffres, wedi'i oeri neu wedi'i rewi.[12] Fodd bynnag, ar gyfer y mathau hyn o gig, mae'r ddeddfwriaeth yn eithrio'r gofyniad i ddangos y wlad lle cafodd yr anifail ei eni.

## Labelu tarddiad ar gyfer cig wedi'i brosesu

Yn y DU, roedd yr holl gynhyrchion a oedd yn cynnwys cig ceffyl neu gig mochyn yn fwyd wedi'i brosesu. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol labelu gwlad tarddiad cig sy'n gynhwysyn mewn cynnyrch bwyd wedi'i brosesu. Mae'r term cig wedi'i brosesu yn cyfeirio at gig a ddefnyddir fel cynhwysyn mewn cynnyrch parod, fel sosej neu fyrgyr, neu gig sydd wedi mynd drwy broses fel ysmygu neu halltu.

Ym mis Chwefror 2015, galwodd Aelodau o Senedd Ewrop o Bwyllgor yr Amgylchedd Senedd Ewrop ar y Comisiwn Ewropeaidd i gyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn orfodol i gig wedi'i brosesu mewn bwydydd parod gael eu labelu â gwlad tarddiad.

---

5 Y Comisiwn Ewropeaidd, **Food test results** (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].
6 *ibid*
7 **OJ L 59, 3.3.2015** [fel ar 9 Mawrth 2015].
8 Llywodraeth y DU, **Getting and using a horse passport** (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].
9 **OJ L 59, 3.3.2015** [fel ar 9 Mawrth 2015].
10 **OJ L 204, 11.8.2000** [fel ar 9 Mawrth 2015].
11 *ibid*
12 **OJ L 335, 14.12.2013** [fel ar 9 Mawrth 2015].

Byddai hyn yn ymestyn y ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol bod labeli gwlad tarddiad yn cael eu rhoi ar gig ffres, i'w gwneud yn ofynnol i'w rhoi ar gynhwysion cig mewn bwydydd wedi'u prosesu fel sosejis a phrydau parod.

Roedd penderfyniad Senedd Ewrop yn nodi'r canlynol:

> ...labelling the country or place of origin of meat and meat products does not in itself prevent fraud, but that a rigorous traceability system does contribute to detecting possible infringements and taking action against them...stricter rules on traceability and consumer information are wanted by consumers... stricter rules on traceability would also enable authorities to investigate food fraud incidents more effectively.[13]

Mae gwaith a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2013[14] wedi dangos y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn cefnogi labelu tarddiad ar gyfer cig wedi'i brosesu. Canfu'r astudiaeth fod[15] **dros 90 y cant o ymatebwyr am wybod ym mha wlad y cafodd eu cig ei gynhyrchu**. Yn dibynnu ar yr aelod-wladwriaeth, **daw 30-50 y cant o'r cig a gynhyrchir yn gynhwysyn mewn cynnyrch bwyd wedi'i brosesu**. Mae rhai sefydliadau ffermio, fel **NFU Cymru** wedi mynegi cefnogaeth i'r cynigion hyn, gan nodi:

> ...clear labelling of these processed foods is essential to let the consumers know, not only what they are buying but where the ingredients actually originate from in the first place...Like the proposals in the resolution, we believe that labelling the origin of meat used as an ingredient in foods will help ensure better traceability along the food supply chain...It will also help create more stable relationships between meat suppliers and processors and increased diligence when food business operators choose their suppliers and products.[16]

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn amharod i gyflwyno labelu gwlad tarddiad gorfodol ar gyfer cig wedi'i brosesu oherwydd pryderon y diwydiant bwyd y gallai gynyddu costau cynhyrchu bwyd yn y pen draw. Amcangyfrifodd adroddiad gan y Comisiwn Ewropeaidd ar labelu bwyd[17] y gallai prisiau gynyddu 15 y cant i 50 y cant, yn dibynnu ar y cynnyrch. Mae'r farn hon wedi cael ei hategu gan y **Ffederasiwn Bwyd a Diod** a oedd yn dadlau y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn rhy ddrud a chymhleth i'w gweithredu:

> ...legislation to require origin labelling would be burdensome to achieve; increase costs; contribute little to improving consumer information; further complicate the label; and would have no impact on food safety.[18]

Mae Aelodau o Senedd Ewrop wedi dadlau yn erbyn y canfyddiadau hyn, gan ddyfynnu astudiaeth o Ffrainc[19] a oedd yn cyfrifo mai dim ond tua 1.5 Ewro cent ychwanegol fyddai cynnyrch fel lasagne cig eidion wedi'i rewi.

Mae Senedd Ewrop wedi galw ar y Comisiwn Ewropeaidd i gynnal dadansoddiad pellach o'i ffigurau.

---

[13] **European Parliament Resolution for country of origin labelling for meat in processed food**, 4 Chwefror 2015 [fel ar 9 Mawrth 2015].
[14] Y Comisiwn Ewropeaidd, **Study on the application of rules on voluntary origin labelling of foods and on the mandatory indication of country of origin or place of provenance of meat used as an ingredient**, 10 Gorffennaf 2013 [fel ar 5 Mawrth 2015].
[15] *ibid*

[16] NFU Cymru, **Resolution on country of origin labelling for meat** (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].
[17] Y Comisiwn Ewropeaidd, **Study on the application of rules on voluntary origin labelling of foods and on the mandatory indication of country of origin or place of provenance of meat used as an ingredient**, 10 Gorffennaf 2013 [fel ar 5 Mawrth 2015].
[18] Y Ffederasiwn Bwyd a Diod, **Country of Origin Labelling, policy position** (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].
[19] Euractive, **BEUC: Food labelling should include country of origin for processed meat** (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].

## Camau gweithredu'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

Ar 15 Chwefror 2013, rhyddhaodd Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd ar y pryd, ddatganiad a oedd yn amlinellu'r cysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, DEFRA, yr heddlu a rhanddeiliaid eraill yn y cyflenwad cig coch yng Nghymru. Nododd y Gweinidog hefyd fwriad Llywodraeth Cymru i gydweithredu a chefnogi'r ymchwiliad a arweinir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r heddlu.

Ym mis Chwefror 2013, cyhoeddodd Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin y DU adroddiad[20] yn amlinellu rôl Llywodraeth y DU a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn atal llygru cig ar raddfa fawr. Canfu'r adroddiad, oherwydd aildrefnu strwythurol o fewn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, roedd diffyg dealltwriaeth ynghylch y cyfrifoldeb dros awdurdodi bwyd:

> ...the current contamination crisis has caught the FSA and Government flat-footed and unable to respond effectively within structures designed primarily to respond to threats to human health.[21]

Cyhoeddwyd Adroddiad Troop[22] ym mis Mehefin 2013 fel adolygiad annibynnol o ymateb yr Asiantaeth Safonau Bwyd i'r sgandal cig ceffyl. Canfu'r adroddiad fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd ychydig yn amharod yn ei ymateb cychwynnol i adroddiadau fod cynhyrchion cig eidion yn cael eu halogi'n anghyfreithlon â chig ceffyl.  Cytunodd yr adroddiad â chanfyddiadau adroddiad Tŷ'r Cyffredin fod yr amharodrwydd hwn yn debygol o fod oherwydd diffyg dealltwriaeth ynghylch rôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd ynghyd ag adrannau amrywiol o Lywodraeth y DU sy'n gysylltiedig â rheoliadau safonau bwyd.

Yn 2013, comisiynodd Llywodraeth y DU **Adolygiad Elliott**.[23] Tra bod Adroddiad Troop yn canolbwyntio ar ymateb yr Asiantaeth Safonau Bwyd, roedd Adolygiad Elliott yn canolbwyntio ar y defnyddiwr. Sefydlwyd yr Adolygiad i archwilio unrhyw fethiannau systematig mewn rhwydweithiau cyflenwi bwyd a'u goblygiadau posibl ar gyfer diogelwch bwyd ac iechyd y cyhoedd, yn ogystal â hyder y defnyddiwr.

Pan gafodd adroddiad Adolygiad Elliott ei gyhoeddi yn 2014, cytunodd Llywodraeth y DU i weithredu'r 8 argymhelliad allweddol. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu'r **Uned Troseddau Bwyd**. Amcan yr Uned Troseddau Bwyd yw gweithio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd i fonitro safonau a diogelwch bwyd yn y DU, gan gynnwys Cymru.[24] Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu **'Canolfannau Rhagoriaeth'** ar gyfer profi bwyd a safoni dulliau profi rhwng labordai gwahanol.

### Profion yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Mae diwydiant bwyd y DU wedi parhau i brofi cynhyrchion cig am DNA / cig ceffyl yn annibynnol. Mae cyfanswm o 50,876 o ganlyniadau profion wedi'u cyflwyno gan y diwydiant i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ers 15 Chwefror 2013.[25] O'r rhain, mae 47 wedi profi'n bositif ar gyfer DNA / cig ceffyl, sydd ond yn cynrychioli 0.09 y cant o'r samplau. **Nid oes unrhyw gynhyrchion cig eidion wedi profi'n bositif ar gyfer cig ceffyl yn y DU ers mis Mehefin 2013**.[26]

[20] Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin, **Contamination of beef products**, 12 Chwefror 2013 [fel ar 9 Mawrth 2015].
[21] Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin, **Contamination of beef products**, 12 Chwefror 2013 [fel ar 9 Mawrth 2015].
[22] Yr Athro Pat Troop, **An independent review of food standards agency response to the contamination of beef products with horse and pork meat and DNA**, Mehefin 2013 [fel ar 9 Mawrth 2015].
[23] Llywodraeth y DU **Elliott Review into the integrity and assurance of food supply networks- Final report**, Gorffennaf 2014 [fel ar 9 Mawrth 2015].
[24] Llywodraeth y DU, **Government response to the Elliott review of the integrity and assurance of food supply networks**, Medi 2015 [fel ar 9 Mawrth 2015].
[25] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, **No horse meat found in latest industry and EU testing** (gwefan) [fel ar 9 Mawrth 2015].
[26] *ibid*

## Arestiadau yn y DU

Ers mis Mawrth 2015, mae tri arestiad wedi bod yn y DU sydd wedi digwydd oherwydd ymchwiliadau yn sgil y sgandal cig ceffyl. Nid yw unrhyw un o'r arestiadau'n ymwneud â phresenoldeb cig ceffyl mewn cynhyrchion archfarchnadoedd, y cafodd llawer ohonynt eu cynhyrchu yn Ewrop. Cafodd yr arestiadau eu gwneud yn dilyn hapwiriadau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

## Rhagor o wyodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **y cynnydd sydd wedi'i wneud ers y sgandal cig ceffyl**, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@Cynulliad.Cymru**), y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- **Bwyd** Comisiwn yr UE
- **Asiantaeth Safonau Bwyd y DU**
- Blog Pigion Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol: **Gosod pris ar hyder defnyddwyr: ASEau yn gwneud cais am Labelu Gwlad Tarddiad ar gyfer cig wedi'i brosesu.** 10 Mawrth 2015.

Mae ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar gael ar wefan y Cynulliad: **cynulliad.cymru/research.htm**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn neges e-bost at **Ymchwil@Cynulliad.Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 15/0569**